

New Functionality in ACW – Launch Date 1st July 2025

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg - ACW	Welsh Language Delivery – ACW
Mae nodwedd newydd yn cael ei chyflwyno ar ACW fydd yn casglu data ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg pob dysgwr. Bydd hyn yn cael ei weithredu o 1 Gorffennaf 2025 .	A new feature is being rolled out on ACW to collect data on Welsh language delivery for each learner. This will be implemented from 1 July 2025 .
Mae'r wybodaeth ar ACW (data Cymraeg) yn cael ei gasglu i gefnogi framwaith strategol a chynllun gweithredu Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru . Bydd yn rhoi tystiolaeth o'r defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr sy'n cwblhau prentisiaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.	The information on ACW (Welsh data) is being collected to support the Welsh Government's More than just Words strategic framework and Action Plan . It will give evidence of the use of Welsh by learners who are completing social care and childcare apprenticeships in Wales.
Mae'r iaith Gymraeg yn perthyn i ni gyd. Gwnaeth Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) sicrhau bod y Gymraeg, yn swyddogol, ar sail gyfartal i'r Saesneg yng Nghymru.	The Welsh language belongs to us all. The Welsh Language Act (1993) was an act that officially put the Welsh language on an equal footing with the English language within Wales.
Anfonwch y wybodaeth hon ymlaen at gydweithwyr yn eich tîm sy'n ardystio prentisiaethau	Please forward this information on to colleagues in your team who certify apprenticeships
<u>Cwestiynau Cyffredin</u>	<u>FAQ's</u>
Beth sy'n newid? Rydyn ni'n ychwanegu cwestiwn am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar ACW. Bydd i'w weld o dan y tab Fframwaith. Mae llun isod o sut bydd yn edrych. Byddwch yn gallu dewis un opsiwn o'r rhestr. Yna, cliciwch 'Diweddu eitem.'	<u>What's changing?</u> We are adding a Welsh language delivery question on ACW. This will sit under the Framework tab. There's a screenshot below of how it will look. You will be able to choose one code from the list. Then click 'Update item'.

Welsh Language Delivery

Code	Disgrifiad (Cymraeg)	Description (English)
<input checked="" type="radio"/> E1	Pob dysgu ac asesu yn Saesneg yn unig.	All Learning and assessment in English only.
<input type="radio"/> B3	Ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg, e.e. mae defnydd o'r Gymraeg wedi'i gyfyngu i gyfathrebu llafar neu i ran fach iawn o'r dysgu. Asesu yn Saesneg yn unig.	A small amount of Welsh-medium learning, e.g. use of Welsh limited to verbal communication or to a minor part of the learning activity. English only assessment.
<input type="radio"/> B2	Cyfran helaeth o ddysgu cyfrwng Cymraeg, e.e. defnyddir Cymraeg llafar ac ysgrifenedig mewn sawl agwedd ar y gweithgareddau dysgu, ond nid ym mhob un. Asesu yn Saesneg yn bennaf ond gallai peth fod yn Gymraeg hefyd.	A significant amount of Welsh-medium learning e.g. both verbal and written Welsh used in many, but not all, parts of the learning activity. Assessment mainly in English but some may also be in Welsh.
<input type="radio"/> B1	Y dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog ac o leiaf 50 y cant o'nesesu ar gael yn y gweithgareddau dysgu wedi'i wneud drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellid cyflawni'r canlyniad yn defnyddio unrhyw fetholeg addysgu briodol.	Learning completed in a bilingual context and at least 50 percent of the available assessments within the learning activity completed through the medium of Welsh. The outcome may be achieved using any appropriate teaching methodology.
<input type="radio"/> C1	Y dysgu wedi'i gwblhau mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg a'r holl asesu ar gael yn y gweithgareddau dysgu wedi'i wneud drwy gyfrwng y Gymraeg.	Learning completed in a Welsh-medium context and all of the available assessments within the learning activity completed through the medium of Welsh.

[x Back](#)

[v Update item](#)

Pam?

Bydd yn ein cynorthwyo ni gyda'n dyletswyddau adrodd am y Gymraeg i Lywodraeth Cymru fel rhan o'u fframwaith strategol a'u cynllun gweithredu Mwy na Geiriau. Bydd y wybodaeth rydyn ni'n casglu trwy ACW yn gyfredol o gymharu â data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) sydd ag oediad amser o 9 mis.

Mae [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#) yn ddarn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru, gan sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Mesur yn moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys sefydlu Comisiynydd yr Iaith Gymraeg i oruchwyllo ei weithrediaeth. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ac yn anelu at wella'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus cyfrwng Cymraeg.

Mae [Safonau'r Gymraeg](#) yn gyfreithiol ac yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r Gymraeg, ac yn sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Beth sydd angen i mi wneud wrth ardystio?

Wrth uwchlwytho prentis newydd, bydd angen i chi ychwanegu cod dysgu ac asesu Cymraeg y dysgwr fydd i'w weld o dan y tab Fframwaith.

Why?

It will assist us with our reporting responsibilities with Welsh Government around the Welsh language as part of their More than just words strategic framework and action plan. This information we will capture via ACW will be current whereas the Lifelong Learning Wales Record (LLWR) data has a time lag of up to 9 months.

The [Welsh Language \(Wales\) Measure 2011](#) is a significant piece of legislation that establishes Welsh as an official language in Wales, ensuring it is treated no less favourably than English. The Measure modernises the legal framework for the use of the Welsh language in public services, including the establishment of the Welsh Language Commissioner to oversee its implementation. It also includes provisions for a Welsh Language Partnership Council and aims to improve the delivery of public services in Welsh.

[Welsh language standards](#) are legislative and promote and facilitate the Welsh language, and ensure that the Welsh language is not treated less favourably than the English language in Wales.

What do I need to do whilst certifying?

Whilst uploading a new apprentice, you will need to add the learner's Welsh language learning and assessment code which will sit under the Framework tab.

Ydi hyn yn orfodol?
Ydi, mae hyn yn faes gorfodol.

Pryd mae hyn yn cael ei weithredu?
O 1 Gorffennaf 2025

Ble ydw i'n gallu dod o hyd i wybodaeth am ddewis dysgu ac asesu cyfrwng Cymraeg y dysgwr, gan gynnwys pa godau i'w defnyddio?

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn y [Canllaw Manyldeb Prentisiaeth](#). Mae Adran I14 'Gofynion Iaith Gymraeg' yn cynnwys dolen at ddogfen [cofnodi data cywir](#) sy'n cynnwys canllawiau pellach ar ba god i'w ddefnyddio.

Os yw i wedi cyflwyno dysgwr i ACW cyn i'r codau asesu dysgu cyfrwng Cymraeg gael eu gweithredu ar 1 Gorffennaf 2025; a fydd angen i mi ail-gyflwyno gywbodaeth yr ymgeisydd?

Na, ni fydd angen i chi ail-gyflwyno'r wybodaeth. Pan rydych chi'n ardystio dysgwr, bydd y blwch gyda'r cod asesu dysgu cyfrwng Cymraeg yn ymddangos ei fod wedi'i gwblhau cyn i chi gyflwyno.

Pa gydrannau fframwaith sydd angen i mi eu hystyried?

Dim ond i egluro bod unrhyw gydran o'r fframwaith a gwblheir yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan gynnwys SEC a dirprwyon SEC, yn berthnasol wrth ddewis y cod cyflwyno iaith Gymraeg.

Pwy alla i gysylltu gydag am fwy o wybodaeth?

Gallwch gysylltu â appcerts@socialcare.wales gydag unrhyw ymholid.

Is this mandatory?

Yes, this is a mandatory field.

When is this being implemented

From 1 July 2025

Where do I find information on the learner's Welsh language learning and assessment preference including which codes to use?

You can find more information on this in the [Apprenticeship Specification Guidance](#). Section I14 'Welsh Language Requirements' provides a link to the [recording of accurate data](#) which has further guidance on which code to use.

If I've entered a learner onto ACW before the Welsh language learning assessment code was implemented on 1 July 2025; will I need to re-enter the candidate's information?

No, you wont need to re-enter the information. When you send the learner for Certification, the Welsh language learning assessment code box will appear to be completed before you submit.

Which framework components do I need to consider?

Just to clarify that **any** component of the framework completed in Welsh or bilingually, including ESW and ESW proxies are relevant when choosing the Welsh language delivery code.

Who can I contact for more information?

You can contact appcerts@socialcare.wales for queries.